# Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

## Gwybodaeth i rieni



Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai fod gan bob person ifanc yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sy'n eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Mae hyn yn cynnwys dysgu am gydberthynasau iach, a chadw'n ddiogel, gan gynnwys ar-lein, fel y gallant godi materion gydag oedolion cyfrifol.

Mae gan rieni, wrth gwrs, rôl ganolog i'w chwarae yn hyn o beth. Ond mae rôl hanfodol i ysgolion hefyd - yn enwedig mewn byd lle mae cymaint o wybodaeth, gan gynnwys camwybodaeth a deunyddiau niweidiol sy'n cylchredeg ar-lein.

Mae ysgolion yn creu amgylcheddau diogel a grymusol a bydd y Cwricwlwm new ydd I Gymru yn adeiladu ar ac yn hyrw yddo hyn. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn gwneud addysg cydberthynas a rhywioldeb yn ofyniad statudol yn y cwricwlwm newydd yng Nghymru, a fydd yn cael ei gyflwyno o 2022.



## DATBLYGU CANLLAWIAU A CHOD STATUDOL (ACRh)

Mae Bil Cwricwlwm Cymru wedi'i basio ac mae'n aros am Gydsyniad Brenhinol.

Bydd canllawiau statudol addysg cydberthynas a rhywioldeb a chod ar gyfer ysgolion yn rhan o’r Cwricwlwm i Gymru. Bydd hyn yn nodi'r hyn y dylid ei ddysgu i ddysgwyr, a'r hyn sy'n briodol i'w ddysgu ar wahanol gamau o'u datblygiad.

Nid yw canllawiau a chod statudol drafft addysg cydberthynas a rhywioldeb wedi'u cyhoeddi eto. Maent yn cael eu cwblhau mewn cydweithrediad â gweithwyr addysgu proffesiynol yng Nghymru a gefnogir gan arbenigwyr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn siarad â llawer o wahanol grwpiau sydd â safbwyntiau gwahanol ar y mater, er enghraifft grwpiau ffydd a grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau plant a phobl ifanc.

Rydym yn gweithio gyda chymunedau a phartïon â diddordeb i ddatblygu ar y cyd y dysgu a'r addysgu ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb, gan ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r materion a'r sensitifrwydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi pawb i ymddiried yn y ffordd y caiff hyn ei weithredu.



## ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB SY'N BRIODOL YN DDATBLYGIADOL

Bydd angen i addysg cydberthynas a rhywioldeb fod yn briodol yn ddatblygiadol i blant a phobl ifanc – er enghraifft, mae plentyn yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei addysgu ar hyn o bryd am berthynas â rhieni, teulu a ffrindiau. Bydd hyn yn parhau.

Y nod yw meithrin gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd moesegol dysgwyr yn raddol wrth iddynt ddatblygu. Rydym am iddynt gael yr offer i allu deall sut mae cydberthynasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb yn llywio eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill – ond dim ond ar yr adeg a'r oedran cywir.

Mae hyn yn cynnwys cydnabod, deall a siarad am wahaniaethu a thrais a gwybod sut a ble i geisio cymorth a chyngor ar amrywiaeth o faterion.

## SUT Y GALLWCH GYMRYD RHAN

Cyn iddo gael ei addysgu, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ganllawiau a chod statudol drafft addysg cydberthynas a rhywioldeb yn ddiweddarach eleni. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach.

Os ydych am gael gwybod pryd mae'r ymgynghoriad yn mynd yn fyw gallwch gofrestru ar gyfer rhybuddion o wefan Llywodraeth Cymru.
https://llyw.cymru/subscribe/consultations